Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar gynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Gorffennaf 2024

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, nid oedd y DU bellach yn rhan o Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru yn fras wedi cynnal system gymorth y PAC i roi amser i ddatblygu polisi amaethyddol newydd i Gymru.

**2.** Yn dilyn tri ymgynghoriad a dau gyfnod 'cyd-ddylunio', cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **chynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy** (Rhagfyr 2023). Cytunodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) i wneud darn byr o waith i ystyried y cynigion i'r graddau y maent yn ymwneud â'r amgylchedd a newid hinsawdd.

### Ein dull ni

**3.** Ar 13 Mawrth 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad i randdeiliaid a fynychwyd gan gynrychiolwyr o'r sectorau amaethyddiaeth, bwyd a'r amgylchedd. Cymerodd Luke Fletcher AS a Sam Kurtz AS ran yn y digwyddiad fel aelodau o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**4.** Ar 21 Mawrth 2024, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio, sefydliadau amgylcheddol, ac academyddion[1]. Ceir rhagor o fanylion am y sesiynau, ynghyd â chyflwyniadau ysgrifenedig a chrynodeb o'r dystiolaeth, ar dudalen we y Pwyllgor.

[1] Gwahoddwyd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU i ddod i'r cyfarfod ar 21 Mawrth i roi tystiolaeth ond nid oedd cynrychiolydd ar gael. Rhoddodd dystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar 9 Mai 2024.

### Datblygiadau diweddar

**5.** Ers i'r Pwyllgor gwblhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth i lywio ei waith, mae amgylchiadau wedi symud ymlaen yn gyflym, gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig newydd yn gwneud nifer o gyhoeddiadau allweddol. Mae hyn yn cynnwys oedi'r Cynllun am 12 mis, sefydlu Bord Gron Weinidogol i helpu i ddod o hyd i ffordd ymlaen ar gyfer yr agweddau mwyaf dadleuol ar y cynigion, a 'Chyfnod Paratoi 2025' newydd.

**6.** Cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y cynigion.

### Ein hadroddiad

**7.** Mae ein hadroddiad yn nodi prif ofynion y Pwyllgor ar gyfer y Cynllun, wedi'i lywio gan y dystiolaeth a ddaeth i law a chan roi sylw i ddatblygiadau diweddar. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried ein hadroddiad wrth fwrw ymlaen â'r Cynllun.

**8.** Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi cynnal ymchwiliad i'r cynigion ar gyfer y Cynllun a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad yn fuan. Mae adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ystyried effaith y cynigion ar fusnesau fferm a'r economi wledig ehangach, anghenion penodol ffermwyr tenant, cominwyr a newydd-ddyfodiaid, a rhwystrau i gyfranogiad. Er mwyn osgoi dyblygu, nid yw ein hadroddiad yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Yn ogystal, o ystyried adroddiad diweddar Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch Cyswllt Ffermio, nid yw ein hadroddiad yn mynd i'r afael â darparu gwasanaethau cynghori i helpu i gyflawni'r Cynllun.

## 2. Trosolwg

**9.** Mae cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn nodi dechrau pennod newydd i'r diwydiant ffermio yng Nghymru. Bydd yn golygu newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae ffermwyr yn cael cymorth ariannol, gan symud oddi wrth Gynllun y Taliad Sylfaenol i gamau gweithredu gwerth chweil sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae gan y Cynllun y potensial i roi'r diwydiant ar sylfaen wirioneddol gynaliadwy, gyda ffermwyr yn cymryd rhan flaenllaw yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd a dirywiad byd natur. Ond mae gan Lywodraeth Cymru lawer mwy o waith i'w wneud i gael y Cynllun yn iawn.

**10.** Mae'r cynigion wedi bod yn destun dadl gyhoeddus a gwleidyddol ddwys. Fe wnaethant achosi cryn aflonyddwch ar draws y diwydiant, gyda ffermwyr yn ofni am eu bywoliaeth ac am ddyfodol cymunedau gwledig. Dywedodd cynrychiolwyr y diwydiant wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu barn ffermwyr i raddau helaeth, gan alw am ailwampio’r cynigion ac am atal y Cynllun. Yn amlwg, nid oedd y broses 'cyd-ddylunio' mor effeithiol ag y bwriadwyd, ac roedd ymddiriedaeth y diwydiant yn Llywodraeth Cymru mor isel ag y bu erioed.

**11.** Roedd ymateb y sector amgylcheddol i'r cynigion yn dra gwahanol. Croesawodd cynrychiolwyr y sector y ffocws parhaus ar yr amgylchedd, gan dynnu sylw at fyrder yr argyfyngau hinsawdd a natur. Ond roedd galwadau i fynd ymhellach ac yn gyflymach ar rai agweddau er mwyn sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau posibl.

**12.** Er gwaethaf y safbwyntiau gwahanol hyn, roedd cynrychiolwyr y diwydiant ffermio a’r sector amgylcheddol yn cytuno na fydd y Cynllun yn cyflawni’r canlyniadau amgylcheddol arfaethedig oni bai bod digon o bobl yn manteisio arno. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo fod yn ddeniadol ac yn ymarferol i ffermwyr. Mae’n amlwg o’r dystiolaeth a gawsom fod tipyn o ffordd i fynd eto i gyflawni hyn.

**13.** Roedd penodiad yr Ysgrifennydd Cabinet newydd yn amserol, gan roi cyfle am bersbectif newydd. Ers ei benodi, mae wedi ceisio ailadeiladu ymddiriedaeth gan y diwydiant, gan ymrwymo i weithio mewn partneriaeth drwy sefydlu Bord Gron Weinidogol i symud y Cynllun yn ei flaen. Croesawn y dull hwn. Serch hynny, mae’n anochel y bydd dod o hyd i ffordd ymlaen ar yr agweddau mwyaf dadleuol ar y cynigion mewn ffordd sy'n cydbwyso blaenoriaethau gwahanol bartneriaid yn heriol. Rydym yn awyddus i sicrhau, wrth geisio mynd i’r afael â’r pryderon a godwyd hyd yma, nad yw Llywodraeth Cymru yn gwanhau uchelgeisiau amgylcheddol y Cynllun.

**14.** Bydd y Cynllun yn llywio dyfodol ffermio am genedlaethau i ddod ac mae’n debygol y bydd yn ei le am y degawdau nesaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae angen i Gymru ddod yn genedl sero net a throi’r llanw o ran colli bioamrywiaeth. Dylai'r Cynllun terfynol alluogi'r sector amaethyddiaeth i chwarae ei ran i gyflawni'r rhain.

# 3. Yr oedi cyn cyflwyno'r Cynllun

**15.** Adeg cymryd tystiolaeth, cynnig Llywodraeth Cymru oedd i’r Cynllun gael ei gyflwyno o 2025. Ers hynny, mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi cyhoeddi oedi o 12

mis. Ar ôl cymryd saith mlynedd i ddatblygu'r cynigion, mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu cyflwyno Cynllun ymarferol ar amser.

**16.** Bydd y Cynllun yn fecanwaith darparu canolog ar gyfer polisi i gefnogi datgarboneiddio ac adferiad natur, gan gynnwys creu coetiroedd newydd, adfer mawndiroedd, a diogelu a gwella cynefinoedd. Gydag amser yn prysur brinhau i gyrraedd targed newid hinsawdd 2030[2] a thargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, mae oedi'r Cynllun yn siomedig. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod bwriad da y tu ôl i'r penderfyniad i oedi, wedi'i ysgogi gan yr awydd i sicrhau bod y Cynllun yn gweithio i ffermwyr ac yn gallu cyflawni'r Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'n hollbwysig cael y Cynllun yn iawn.

**17.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet eisoes wedi rhoi sicrwydd i'r Senedd y bydd yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod y Cynllun yn barod i'w gyflwyno o 2026. Dywedodd wrthym fod gwaith yn digwydd i gyflawni cerrig milltir ac amserlenni eithaf clir, ond ni rannodd fanylion penodol.[3] Mae angen i'r Senedd, y diwydiant ffermio a rhanddeiliaid ehangach fod yn hyderus bod cynnydd yn cael ei wneud a bod gwaith yn parhau ar y trywydd iawn. Er mwyn gwella tryloywder a chefnogi gwaith craffu, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro'r amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer y camau sy'n weddill o ran datblygu'r Cynllun a rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd.

### Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet wneud y canlynol:

- darparu amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill o ran datblygu'r Cynllun, gan gynnwys cyhoeddi allbynnau'r ffrydiau gwaith amrywiol sy'n cael eu datblygu gan y Ford Gron Weinidogol, ac
- ymrwymo i roi diweddariadau tymhorol i'r Senedd ar y cynnydd tuag at ddatblygu'r Cynllun terfynol.

## 4. Rheolau'r cynllun

**18.** Mae llawer o'r ddadl ynghylch y cynigion wedi codi oherwydd pryder gan ffermwyr y bydd rheolau'r Cynllun yn golygu y bydd angen tynnu 20 y cant o dir fferm i ffwrdd o gynhyrchu bwyd. Er ein bod yn cydnabod y pryder hwn, rydym yn

[2] Erbyn 2030, rhaid i Gymru leihau 63 y cant o'i hallyriadau carbon yn erbyn llinell sylfaen 1990 ar y ffordd i gyrraedd sero net erbyn 2050.
[3] Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 26 Mehefin 2024

nodi na fydd y gofyniad 10% o orchudd coed yn cael ei gyfrifo yn ôl arwynebedd y fferm gyfan, ond yn hytrach yn defnyddio'r arwynebedd sy'n weddill ar ôl tynnu'r darnau na ellir plannu arnynt Bydd gorchudd coed presennol yn rhan o'r cyfrifo. Ar ben hynny, mae'r cynigion yn darparu ar gyfer integreiddio mwy o goed mewn system fferm gynhyrchiol yn hytrach na disgwyl i ffermwyr neilltuo tir i fodloni'r gofynion.

**19.** Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynyddu ymdrechion dros y misoedd nesaf i fynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch rheolau'r Cynllun, a hyrwyddo manteision integreiddio coed a chynefinoedd ar dir fferm.

## Gofyniad am orchudd coed o 10 y cant

**20.** Mae plannu mwy o goed yn hanfodol os yw Cymru am gyrraedd ei thargedau newid hinsawdd. Yn ogystal â bod coedwigo yn ffordd effeithiol o atafaelu mwy o garbon, mae potensial hefyd i hyn sicrhau manteision ehangach, gan gynnwys lles da byw, lleihau llygredd, atal llifogydd ac erydu pridd, a diogelu a gwella bioamrywiaeth.

**21.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar darged hynod uchelgeisiol i blannu 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 i helpu i gyrraedd sero net a sicrhau buddion amgylcheddol ehangach. Nod y gofyniad gorchudd coed yw helpu i gyflawni'r targed, ond mae ffermwyr wedi'i wrthwynebu'n chwyrn.

**22.** Dywedodd cynrychiolwyr y diwydiant ffermio wrthym y byddai'r gofyniad yn rhwystr anorchfygol[4] i "nifer helaeth o ffermwyr" o ran ymuno â'r Cynllun[5], gan leihau capasiti cynhyrchiol a bygwth hyfywedd economaidd busnesau fferm. Fodd bynnag, roeddent yn awyddus i bwysleisio nad ydynt yn gwrthwynebu coed, ond yn hytrach yn gwrthwynebu ei gwneud yn orfodol bod pob fferm yng Nghymru â 10 y cant o goed.[6] Roeddent yn haeru y dylai unrhyw fesurau i blannu mwy o goed ar ffermydd fod wedi'u targedu, yn gynaliadwy, yn rhoi gwobr deg ac yn cefnogi capasiti cynhyrchiol.

**23.** Roedd cyfranwyr eraill yn croesawu'r ffocws parhaus ar blannu coed, gan esbonio y gallai integreiddio coed yn llwyddiannus mewn systemau ffermio hybu cynhyrchiant, helpu i leihau risg ffermio mewn hinsawdd sy'n newid, a chefnogi adferiad byd natur.

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru
[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 21 Mawrth 2024

**24.** Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod y gorchudd coed ar dir fferm eisoes yn 6-7 y cant ar gyfartaledd. Dywedodd wrthym:[7]

> *"going from 7 per cent to 10 per cent isn't actually that big of a change overall, but in some areas, it's much harder than others, and there is some scope to probably reflect that further."*[8]

**25.** Clywsom hefyd fod angen dull mwy hyblyg ar gyfer plannu mwy o goed ar ffermydd, gydag awgrymiadau penodol yn cael eu cyflwyno ynghylch sut y gellid cyflawni hyn.

**26.** Nododd cynrychiolwyr y diwydiant ffermio amrywiaeth o weithgareddau ffermio sy'n cefnogi atafaelu carbon, gan gynnwys rheoli gwrychoedd a phridd. Roeddent yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu panel annibynnol i adolygu'r gofyniad ac archwilio cyfleoedd y tu hwnt i blannu coed i atafaelu mwy o garbon ar ffermydd. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ymateb yn gadarnhaol i'r alwad hon, gan roi'r dasg i'r Ford Gron Weinidogol sefydlu is-grŵp i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.[9]

**27.** Nid oes modd cyflawni targed plannu coed Llywodraeth Cymru heb ffermwyr, o ystyried bod tir amaethyddol yn cyfrif am dros 80 y cant o dirwedd Cymru. Mae'n rhesymegol felly bod yn rhaid i gynyddu'r gorchudd coed fod yn flaenoriaeth i'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'r gofyniad o 10 y cant yn amlwg yn llinell goch i'r diwydiant ffermio.

**28.** Rydym yn nodi'r camau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cymryd hyd yma i ddod o hyd i ffordd ymlaen ynghylch plannu coed. Fel Pwyllgor, ein prif bryder yw canlyniadau'r Cynllun. Rydym yn agored i fesurau gwahanol i blannu coed a all sicrhau canlyniadau tebyg, neu rai gwell. Fodd bynnag, rydym yn glir bod yn rhaid i unrhyw ostyngiad yn y gofyniad gorchudd coed yn y Cynllun gael ei wrthbwyso gan opsiynau atafaelu carbon eraill. Rydym yn annog yr is-grŵp i ofyn am gyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion.

**29.** Byddem yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i opsiynau ddod i'r amlwg. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru ofyn am gyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ynghylch unrhyw opsiwn amgen a gynigir gan yr is-grŵp Bord

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig – Cyswllt Amgylchedd Cymru
[8] Cofnod y Trafodion, paragraff 255, 21 Mawrth 2024
[9] Mae'r Ford Gron Weinidogol wedi sefydlu is-grŵp atafaelu carbon i ystyried cyfleoedd i atafaelu mwy o garbon drwy'r Cynllun. Cytunwyd ar aelodaeth yr is-grŵp a'r cam nesaf yw iddo nodi tystion arbenigol i lywio'i waith.

Gron Weinidogol yn lle'r gofyniad plannu coed, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn opsiwn hyfyw ar gyfer atafaelu mwy o garbon, yn unol â'r llwybr cytbwys i sero net.

## Rheoli cynefinoedd 10 y cant

**30.** Mae byd natur yn parhau i ddirywio ar raddfa frawychus yng Nghymru, sydd eisoes yn un o'r gwledydd sydd wedi colli'r mwyaf o'i natur yn y byd. Un o'r prif resymau dros y dirywiad hwn yw diraddio, darnio a cholli cynefinoedd y mae rhywogaethau'n dibynnu arnynt. Mae cynyddu arwynebedd cynefinoedd o ansawdd da ar gyfer bywyd gwyllt yn hanfodol os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei hymrwymiadau bioamrywiaeth, yn enwedig i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030. Nod y gofyniad rheoli cynefinoedd yw helpu ffermwyr i greu a rheoli cynefinoedd ar dir fferm er budd natur, ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd.

**31.** Mae'r gofyniad wedi cael ymateb cymysg. Dywedodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol wrthym eu bod yn gryf o blaid y gofyniad, gyda Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn datgan ein bod yn wynebu argyfwng bioamrywiaeth byd-eang ac y gwyddom fod un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu o Gymru. Pwysleisiodd fod tir fferm yn gorchuddio dros 80 y cant o Gymru, felly os na ellir adfer natur ar dir fferm, ni fyddwn yn gallu cyrraedd ein targedau i warchod ac adfer bioamrywiaeth mewn 30 y cant o'n tir a'n môr.[10]

**32.** I'r gwrthwyneb, dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru ei fod yn llwyr wrthwynebu'r gofyniad, gan alw yn lle hynny am gynllun trosfwaol o gynyddu ardaloedd o gynefin gan gyfran sy'n hylaw ac yn realistig, ac nad yw'n peryglu cynhyrchiant na hyfywedd economaidd busnesau ffermio.

**33.** Roedd sawl cyfrannwr yn gwrthod yr honiad y byddai'r gofyniad yn effeithio ar gapasiti cynhyrchiol. Dywedodd Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru nad yw creu neu reoli tir ar gyfer cynefin yn golygu aberthu cynhyrchu bwyd, gan ddweud ei fod yn hytrach yn ffurfio elfen hanfodol ohono. Ychwanegodd y gall integreiddio ystod amrywiol o gynefinoedd a nodweddion ar dir fferm gynnal a hyd yn oed gynyddu cynnyrch.[11]

**34.** Er gwaethaf cefnogaeth gref Cyswllt Amgylchedd Cymru i'r gofyniad, nododd na fyddai'r gofyniad yn gwarantu bod pob fferm yn rheoli ystod amrywiol o gynefinoedd. Roedd hefyd yn cwestiynu a fyddai'r holl opsiynau ar gyfer creu

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru

cynefinoedd dros dro newydd yn sicrhau buddion o ran bioamrywiaeth. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried hyn wrth gwblhau'r Cynllun.

**35.** Er mwyn atal dirywiad bioamrywiaeth, rhaid i greu a rheoli cynefinoedd barhau i fod yn flaenoriaeth yn y Cynllun. Os bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn penderfynu y dylid lleihau lefel y gofyniad cynefin yn y Cynllun, er enghraifft drwy amrywio'r gofyniad ar draws haenau o gamau gweithredu, rhaid iddo egluro'r rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw. Wrth gwblhau'r Cynllun, rhaid iddo sicrhau bod unrhyw gynnig amgen i'r gofyniad yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, yn benodol y nod i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030. Ar ben hynny, rhaid iddo amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i liniaru effaith y penderfyniad hwn.

## Argymhellion

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gynyddu ymdrechion dros y misoedd nesaf i fynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch rheolau'r Cynllun, a hyrwyddo manteision integreiddio coed a chynefinoedd dros dro mewn system gynhyrchiol.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddewisiadau amgen posibl yn lle'r gofyniad gorchudd coed wrth iddynt godi.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau y gall unrhyw ddewis amgen yn lle'r gofyniad gorchudd coed gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau dymunol targed plannu coed Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ofyn am gyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ynghylch unrhyw opsiwn amgen a gynigir gan yr is-grŵp Bord Gron Weinidogol yn lle'r gofyniad plannu coed, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn opsiwn hyfyw ar gyfer atafaelu mwy o garbon, yn unol â'r llwybr cytbwys i sero net.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau y bydd unrhyw ddewis amgen yn lle'r gofyniad rheoli cynefinoedd yn helpu i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, yn enwedig targed 2030.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y gofyniad rheoli cynefinoedd, neu unrhyw ddewis amgen yn lle'r gofyniad, yn helpu i greu'r ystod amrywiol o gynefinoedd sydd eu hangen i adfer natur.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod pob opsiwn ar gyfer creu cynefinoedd dros dro yn sicrhau gwerth am arian a'r canlyniadau bioamrywiaeth a fwriedir.

## 5. Gweithredoedd Cyffredinol

**36.** Wrth ddatblygu'r cynigion, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu sicrhau y gallai'r Gweithredoedd Cyffredinol gael eu cyflawni (lle bo'n briodol) ar bob fferm, gan wneud y Cynllun yn hygyrch i bob ffermwr. Clywsom gan gynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio fod y cynigion wedi methu â chyflawni'r bwriad hwn. Yn ôl cynrychiolwyr y diwydiant, byddai'r Gweithredoedd Cyffredinol yn rhwystr i lawer o ffermwyr rhag ymuno â'r Cynllun, ac yn orfeichus a biwrocrataidd, ymhlith pethau eraill. Roeddent yn galw am fwy o hyblygrwydd ac am symud rhai Gweithredoedd Cyffredinol i'r haen Opsiynol.

**37.** Dywedodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol wrthym, er y byddai'r Gweithredoedd Cyffredinol yn debygol o ddarparu sylfaen ar gyfer cyflawni canlyniadau amgylcheddol, na fyddent yn ddigonol i ddechrau adfer byd natur. Clywsom, yn achos ffermwyr sydd 'er lles natur', y gallai'r Gweithredoedd Cyffredinol gael eu hystyried yn anuchelgeisiol, o ystyried eu bod eisoes yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol.

**38.** Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi ffrwyno rhywfaint o'i huchelgais ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol yn dilyn gwrthwynebiad trwm i ofynion y Cynllun. Roedd yn annog Cyswllt Amgylchedd Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau pellach yn gwneud y Cynllun yn fwy effeithiol, i'r amgylchedd ac i ffermwyr, yn hytrach na gwanhau gofynion amgylcheddol yn unig.

**39.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y gallai fod angen newidiadau i'r Gweithredoedd Cyffredinol er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei bwriad o wneud y Cynllun yn hygyrch i bob ffermwr. Rydym yn ceisio sicrwydd na fydd unrhyw newidiadau i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad, neu i symleiddio Gweithredoedd, yn gwanhau uchelgeisiau amgylcheddol y Cynllun. Er y dylai'r Gweithredoedd Cyffredinol fod yn realistig ac yn gyraeddadwy i ffermwyr, rhaid iddynt hefyd fod yn ddigon uchelgeisiol i ysgogi newid a rhoi sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni canlyniadau amgylcheddol. Wrth gwblhau'r Cynllun, rhaid i'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod y Gweithredoedd Cyffredinol yn bodloni'r meini prawf hyn.

## Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

**40.** Clywsom fod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), sy'n cael eu rheoli'n bennaf gan ffermwyr, yn allweddol i gyflawni'r targed '30 erbyn 30'. Os yw Cymru am wneud cynnydd tuag at y targed hwn, rhaid i'r Cynllun sicrhau bod ffermwyr yn cael eu cefnogi i reoli tir SoDdGA yn briodol. Clywsom fod y cynigion yn methu â chyflawni hyn.

**41.** Mae'r cynigion yn eithrio tir SoDdGA o gydran cynnal cynefinoedd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae hyn oherwydd "ni allwn dalu ffermwyr i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol ar gyfer tir SoDdGA".[12] Fodd bynnag, heriodd y cyfranwyr yr honiad hwn.

**42.** Dywedodd Soil Association Cymru y gallai gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol fynd y tu hwnt i'r ddyletswydd SoDdGA i sicrhau nad yw nodweddion dynodedig yn cael eu difrodi.[13] Esboniodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod cynnal cyflwr SoDdGA yn ofyniad rheoleiddiol i gyrff cyhoeddus yn hytrach nag i ffermwyr. Dywedodd NFU Cymru fod y gwaharddiad yn wrthnysig ac nad oes sail gyfreithiol iddo, a dywedodd hefyd ei fod yn anfon y neges gwbl anghywir i ffermwyr ar adeg pan fo gan Lywodraeth Cymru uchelgeisiau cynyddol ynghylch targedau ar gyfer bioamrywiaeth.[14] Roedd consensws y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei safbwynt.

**43.** Ers inni gymryd tystiolaeth, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi rhoi sicrwydd bod SoDdGA yn un o flaenoriaethau'r Cynllun. Dywedodd ei swyddog wrthym eu bod yn weddol agos ar lefel polisi at ganfod ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan gyfranwyr.[15] Mae hyn yn ein calonogi.

## Argymhellion

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i'r Gweithredoedd Cyffredinol i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad, neu i symleiddio Gweithredoedd, yn gwanhau uchelgais amgylcheddol y Cynllun.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod y Cynllun yn gwobrwyo ffermwyr yn deg am gynnal a chadw tir SoDdGA o dan y

---

[12] Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Yn cefnogi fermwyr i ffermio, Rhagfyr 2023
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, Soil Association Cymru
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru
[15] Cofnod y Trafodion, paragraff 227, 26 Mehefin 2024

Gweithredoedd Cyffredinol. Dylai ymrwymo i gynnwys tir SoDdGA yng nghydran cynnal cynefinoedd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.

# 6. Haenau Opsiynol a Chydweithredol

**44.** Mae'r cynigion yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r haen Gyffredinol yn gyntaf, a chyflwyno'r haenau Opsiynol a Chydweithredol yn ddiweddarach yn ystod y Cyfnod Pontio (2025 i 2029).

**45.** Clywsom bryderon mai cyfyngedig fu'r cynnydd tuag at ddatblygu Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol ers cynigion amlinellol y cynllun (Gorffennaf 2022). Dywedodd cynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio wrthym y gallai diffyg eglurder ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r haenau Opsiynol a Chydweithredol, y dyraniad cyllidebol a'r dull talu arwain at ffermwyr yn oedi mor hir â phosib cyn symud i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.[16]

**46.** Dywedodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol y byddai haenau Opsiynol a Chydweithredol yn sicrhau'r buddion amgylcheddol mwyaf. Roeddent yn mynegi pryder y byddai oedi cyn cyflwyno'r Cynllun yn cyfyngu ar ei uchelgais amgylcheddol, yn y blynyddoedd cynnar o leiaf, ac y byddai'n rhoi ffermwyr sy'n gweithio 'er lles natur' sydd eisoes yn cyflawni y tu hwnt i'r Gweithredoedd Cyffredinol, neu sydd ag uchelgais i wneud hynny, dan anfantais. Roeddent yn galw am gyflwyno'r haenau Opsiynol a Chydweithredol erbyn 2026 fan bellaf.

**47.** Ers cyhoeddi y byddai'r Cynllun yn cael ei oedi, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud ei fod yn bwriadu cyflwyno cynifer o'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol â phosibl o 2026. Rydym yn croesawu hyn ac yn gobeithio y bydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth i ni. Serch hynny, mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud cyn hynny, gyda'r Gweithredoedd Opsiynol heb eu datblygu'n ddigonol a chynigion ar gyfer Gweithredoedd Cydweithredol heb eu rhyddhau eto. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu ei hymdrechion dros y misoedd nesaf i sicrhau bod cyfres gynhwysfawr o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol ar gael i ffermwyr o ddechrau'r Cynllun.

**48.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r Ford Gron Weinidogol yn ystyried pa rai o'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol y dylid eu blaenoriaethu i'w cyflwyno. Disgwyliwn i'r Gweithredoedd a fydd yn sicrhau canlyniadau amgylcheddol gael blaenoriaeth ddigonol.

[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru

## Cnydau biomas

**49.** Mae adroddiad cynnydd diweddaraf Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ynghylch lleihau allyriadau yng Nghymru (Mehefin 2023) yn argymell fel a ganlyn: "Where appropriate, the Sustainable Farming Scheme should consider rewarding the environmental benefits that the planting of perennial energy crops can deliver on arable land in the same way that England's Sustainable Farming Incentive has confirmed it will". Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i archwilio cnydau biomas fel Gweithred Opsiynol bosibl. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn cynnwys Gweithred Opsiynol mewn perthynas â chnydau biomas. Disgwyliwn i'r Ysgrifennydd Cabinet fynd i'r afael â'r mater hwn.

## Argymhellion

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu amserlen amlinellol ar gyfer y camau sy'n weddill o ran datblygu'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio i benderfynu pa Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol i'w blaenoriaethu i'w cyflwyno ar ddechrau'r Cynllun.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a fydd yn sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys Gweithredoedd sydd â'r nod o wella cyflwr SoDdGA, gan gydnabod bod SoDdGA yn allweddol i gyflawni'r targed 30 erbyn 30.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet wneud y canlynol:

- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau gwaith a wneir i archwilio'r potensial i gynnwys cnydau biomas fel Gweithred Opsiynol, ac
- egluro a yw cnydau biomas wedi'u diystyru fel Gweithred Opsiynol, ac os felly, egluro'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

# 7. Dyraniad y gyllideb

**50.** Mynegodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol bryder y byddai cynnwys Taliad Sefydlogrwydd a pharhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod y Cyfnod Pontio yn cyfyngu ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer yr haenau Opsiynol a

Chydweithredol. Dywedodd Soil Assocation Cymru y dylai o leiaf 50 y cant o gyllideb y Cynllun gael ei neilltuo i'r haenau hyn erbyn diwedd y Cyfnod Pontio. Mynegwyd pryder hefyd y byddai'r haen Gyffredinol yn cymryd swm anghymesur o gyllideb y Cynllun, gan gyfyngu ar y nifer sy'n dewis cymryd Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

**51.** Mae diffyg eglurder ynghylch sut y caiff cyllideb y Cynllun ei dyrannu ar draws yr haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu y bydd gweithredu Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael, [17]sy'n peri pryder i ni. Os yw'r Cynllun am gyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol, rhaid dyrannu cyfran briodol o gyllideb y Cynllun i'r haenau Opsiynol a Chydweithredol.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro sut y bydd yn sicrhau bod cyllideb y Cynllun yn cael ei dyrannu'n briodol ar draws yr haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol er mwyn sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau posibl.

# 8. Dull talu

## Costau a wariwyd ac incwm a gollwyd

**52.** Roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu canfyddiad ymhlith cyfranwyr na fyddai'r dull talu'n mynd y tu hwnt i'r costau a wariwyd/incwm a gollwyd. Yn ôl cyfranwyr, ni fyddai hyn yn cymell ffermwyr i fanteisio arno nac yn darparu incwm ystyrlon i ffermwyr.

**53.** Ers inni gymryd tystiolaeth, mae swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet wedi egluro safbwynt Llywodraeth Cymru gan ddweud mai'r bwriad o hyd oedd cael gwerth cymdeithasol yn rhan o'r dull talu. Dywedodd fod yr ymgynghoriad yn nodi'r tair elfen hyn, sef costau a wariwyd, incwm a gollwyd a gwerth cymdeithasol. Ychwanegodd fod hyn yn pwysleisio costau a wariwyd ac incwm a gollwyd yn llawer mwy na gwerth cymdeithasol oherwydd ei bod yn weddol syml llunio dull ar gyfer costau a wariwyd ac incwm a gollwyd, ond bod hyn yn llawer anoddach o ran gwerth cymdeithasol.[18]

[17] Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Yn cefnogi fermwyr i ffermio, Rhagfyr 2023
[18] Cofnod y Trafodion, paragraff 394, 13 Mehefin 2024

**54.** Mae'n destun gofid i Lywodraeth Cymru fethu ag egluro'i bwriad o'r cychwyn. Dim ond gwaethygu pryderon y diwydiant ffermio wnaeth hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddysgu gwersi o hyn cyn cyhoeddi'r Cynllun terfynol.

**55.** Er ein bod yn cydnabod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â datblygu taliad 'gwerth cymdeithasol', rydym yn siomedig mai cyfyngedig fu'r cynnydd hyd yma. Rydym yn nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi rhoi'r dasg i'r Ford Gron Weinidogol fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rydym yn ceisio ymrwymiad gan yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd 'gwerth cymdeithasol' yn cael ei ymgorffori yn y dull talu ar ddechrau'r Cynllun i gymell y nifer sy'n manteisio arno a rhoi gwobr deg i ffermwyr am gyflawni canlyniadau amgylcheddol.

## Dull 'Taliadau am Ganlyniadau'

**56.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi ei bod yn bwriadu ystyried dull 'Taliadau am Ganlyniadau' yn y Cynllun. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhan o'r cynigion.

**57.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod cefnogaeth i symud i ddull 'Taliadau am Ganlyniadau' neu ei ymgorffori dros amser ac wrth i'r Cynllun ddatblygu. Awgrymodd Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru a chynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol bod Llywodraeth Cymru yn cynnal treialon pellach, yn debyg i gynllun peilot taliadau ar sail canlyniadau Llŷn, a dysgu gwersi o wledydd eraill lle mae dulliau tebyg yn gweithredu'n llwyddiannus. Eglurodd cynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio, lle mae cynlluniau sy'n seiliedig ar ganlyniadau eisoes yn gweithredu, fod taliadau am ganlyniadau yn ychwanegol at daliadau uniongyrchol.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i sicrhau bod 'gwerth cymdeithasol' yn cael ei ymgorffori yn y dull talu ar ddechrau'r Cynllun.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi ei syniadau presennol ynghylch dull 'Taliadau am Ganlyniadau', ac
- ymrwymo i ystyried cynnwys 'Taliadau am Ganlyniadau' fel rhan o adolygiad o'r Cynllun yn y dyfodol.

# 9. Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran helpu i gyflawni

**58.** Nid yw'n glir o'r cynigion a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig beth yw hyd a lled rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun a'r gost gysylltiedig. Fodd bynnag, clywsom dystiolaeth gan Cyswllt Amgylchedd Cymru y byddai rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwyddocaol, gan gynnwys gweithio gyda ffermwyr i gwblhau cynlluniau rheoli SoDdGA a darparu canllawiau ar greu coetiroedd. Clywsom bryderon hefyd y gallai cyfyngiadau cyllidebol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru effeithio ar gyflawni rhai gweithredoedd.

**59.** Mae ein pryderon ynghylch capasiti a'r cyfyngiadau ariannol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hwynebu yn hysbys. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun yn effeithiol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro hyd a lled rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun a darparu manylion unrhyw asesiad cost cysylltiedig. Os nad oes asesiad cost wedi'i gynnal eto, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad.

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i ymgymryd ag unrhyw weithgareddau ychwanegol a/neu fodloni unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n deillio o'r Cynllun.